**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**Rheoliadau Pedolwyr (Cofrestru) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod yn rhaid i Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei osod ac i Gynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os yw un o offerynnau statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Cafodd Rheoliadau Pedolwyr (Cofrestru) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 eu gosod gerbron pwyllgorau sifftio Dau Dŷ'r Senedd ar 13 Rhagfyr 2018. Mae'r rheoliadau i'w gweld yma:

https://beta.parliament.uk/work-packages/MtHRLa9i

**Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i amcan**

3. Amcan yr OS yw mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, ynghyd â diffygion eraill sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, fel y darperir ar gyfer hynny gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae hefyd yn cynnwys diwygiadau o ran gweithredadwyedd.

4. Mae'r OS hefyd yn gwneud diwygiadau i'r Deddfau a ganlyn:
   - Deddf Pedolwyr (Cofrestru) 1975 ("Deddf 1975").
   - Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 ("Deddf 1981")

**Darpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS**

5. Mae Rheoliadau 2019 yn newid y darpariaethau a ganlyn yn Neddf 1975:

1.The Act is amended as follows.

(1) In section 3, omit subsection (2A)(a).

(2) In section 4, omit subsection (5)(b).

(3) In section 7(c) —

(a) in subsection (1)—

(i) in paragraph (d), at the end, insert "or";

(ii) in paragraph (e), for "a relevant European State" substitute "the United Kingdom";

(iii) omit paragraphs (f) and (g);

(b) omit subsections (6) to (9).

(4) In section 9)—

(a) omit subsections (2) to (5);

(b) in subsection (6), omit ", (2), (3) or (4)";

(c) in subsection (7), omit ", (2), (3) or (4)".

(5) In section 10(1)(b)(e), for ", or Part IV or Part V" substitute "or Part IV".

(6) In section 15(1)(f), omit paragraph (d) and the "or" before it.

(7) In section 15A(1) (g), omit sub-paragraph (iii) and the "or" before it.
In section 16(2) (h), omit paragraph (c) and the "or" before it.

6. Mae Rheoliadau 2019 yn dileu'r darpariaethau deddfwriaethol presennol a drosodd Gyfarwyddeb 2005/36EC a Chyfarwyddeb 2013/55/EU − a elwir yn Gyfarwyddeb Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol yn Gilyddol − i mewn i Ddeddf 1975. Mae Rheoliadau'r DU sy'n gweithredu'r Gyfarwyddeb honno i mewn i Ddeddf 1975 yn cael eu nodi yn Rheoliadau Cydnabyddiaeth Ewropeaidd o Gymwysterau Proffesiynol 2015 (fel y'u diwygiwyd). Hwylusodd hynny'r ffordd i wladolion yr UE/yr Ardal Economaidd Ewropeaidd gofrestru o dan Ddeddf 1975. Mae'r diwygiad yn sicrhau bod unrhyw berson sydd â chymhwyster pedoli a gafodd y tu allan i'r UE, ac sydd am gofrestru gyda'r Cyngor Cofrestru Pedolwyr, feddu ar gymhwyster sy'n cyfateb i safonau'r Cyngor neu sefyll arholiad. Bydd yn rhaid i gymwysterau sydd gan wladolion o'r tu allan i'r UE/yr Ardal Economaidd Ewropeaidd gael eu hasesu gan y Cyngor Cofrestru Pedolwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau sy'n ofynnol ganddo −os na fydd y cymwysterau hynny'n cydymffurfio â'r safonau hynny, bydd yn rhaid i'r gwladolion sefyll arholiad.

7. Mae Rheoliadau 2019 yn newid y darpariaethau a ganlyn yn Neddf 1981:

(1)The Animal Health Act 1981 is amended as follows.

(2) In section 64A (b)—

(a) in the heading, for "EU obligations" substitute "retained EU law";

(b) in paragraph (a), in the words after sub-paragraph (ii), for "in implementation of any EU obligation" substitute "which is retained EU law".

(3) In Schedule 3(2A)(4)(c), omit paragraph (a).

8. Mae'r ail ddiwygiad (mewn perthynas â deddfwriaeth sylfaenol) yn diwygio Deddf 1981. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod y pŵer mynediad sy'n bodoli ar hyn o bryd (sy'n bodoli pan fo is-ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud o dan y Ddeddf i roi effaith i un o rwymedigathau'r UE) yn parhau i fodoli.

9. Mae'r newidiadau a nodir ym mharagraffau 5 a 6 yn ymwneud â swyddogaethau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a allai fod yn destun Bil gan y Cynulliad Cenedlaethol.

10. Mae Adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar unrhyw bwnc ac eithrio'r rheini sydd wedi'u cadw'n

ôl yn benodol i Senedd y DU yn Atodlen 7A i'r Ddeddf. Mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid a phedoli.

**Pam mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon**

11. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi sy'n gysylltiedig â'r cywiriad. Felly, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr i gywiro'r cyfeiriad dan sylw yn arwain at ddyblygu gwaith ac at gymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i'r OS hwn yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws Cymru a Lloegr, sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**Lesley Griffiths AC**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**

19 Rhagfyr 2018